## ATODLEN 1

Rheoliad 6

### GWYBODAETH DROSGLWYDDO GYFFREDIN

**1.** Yr wybodaeth ganlynol am y disgybl —

(a) rhif unigryw'r disgybl;

(b) cyfenw;

(c) enw(au) cyntaf;

(ch) dyddiad geni;

(d) rhyw;

(dd) grŵp ethnig;

(e) hunaniaeth genedlaethol;

(f) pwy a ddarparodd yr wybodaeth o ran grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol y disgybl;

(ff) pa mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg.

(g) a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref ac, os felly, gyda phwy;

(ng) pwy a ddarparodd yr wybodaeth am ba mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg ac a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref;

(h) a yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(3) a 512ZB o Ddeddf 1996(**1**), wedi gwneud cais am brydau am ddim yn yr ysgol a'i gael yn gymwys iddynt;

(i) a yw'r disgybl, yn unol ag adrannau 512(1) a 512ZB o Ddeddf 1996, wedi gwneud cais am laeth am ddim yn yr ysgol a'i gael yn gymwys iddo.

**2.** A oes gan ddisgybl anghenion addysgol arbennig ac, os felly, cadarnhad o —

(a) brif angen y disgybl ac unrhyw angen eilaidd a nodwyd; a

(b) y math o ddarpariaeth AAA sy'n rhan o'r ymagwedd raddedig a fabwysiadwyd yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru"(**2**), a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, sy'n cael ei gwneud i'r disgybl hwnnw.

**3.** Lle mae'r disgybl yn blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, yna'r ffaith honno ac enw'r awdurdod lleol hwnnw.

**4.** Manylion y cyfeiriad lle mae'r disgybl fel arfer yn preswylio.

**5.** Cyfenw o leiaf un person cyswllt a manylion eu perthynas â'r disgybl.

**6.** Dangosydd lle mae gwybodaeth feddygol yn bodoli a allai fod yn berthnasol i ysgol newydd y disgybl.

**7.** Cyfanswm —

(a) y sesiynau yn y flwyddyn ysgol tan y dyddiad y mae'r disgybl yn peidio â bod yn gofrestredig yn yr hen ysgol;

(b) y sesiynau hynny yn y flwyddyn ysgol a fynychwyd gan y disgybl; a

(c) absenoldebau awdurdodedig y disgybl a'r absenoldebau na chafodd eu hawdurdodi (o fewn ystyr Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995) yn y flwyddyn ysgol.

**8.** Y rhif AALl a rhif ysgol yr hen ysgol yn ogystal â'r ysgol newydd.

---

(**1**) Amnewidiwyd adrannau 512 a 512ZB, ynghyd ag adran 512ZA, am adran 512 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 201(1).

(**2**) ISBN 0 7504 27574.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*